# PWYLLGOR CYNLLUNIO

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Mercher, 12 Tachwedd 2014 am 9.30 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Ian Armstrong, Raymond Bartley (Cadeirydd), Joan Butterfield, Bill Cowie, Ann Davies, Meirick Davies, Richard Davies, Stuart Davies, Huw Hilditch-Roberts, Rhys Hughes, Alice Jones, Pat Jones, Margaret McCarroll, Barry Mellor, Win Mullen-James (Is-Gadeirydd), Bob Murray, Peter Owen, Dewi Owens, Merfyn Parry, Paul Penlington, Arwel Roberts, David Simmons, Joe Welch, Cefyn Williams a Huw Williams

Aelodau Lleol – roedd y Cynghorydd Martyn Holland yn bresennol ar gyfer eitem 10 ar y rhaglen

Roedd y Cynghorydd David Smith, Aelod Arweiniol y Parth Cyhoeddus, yn bresennol ar gyfer eitemau 5 - 8.

## HEFYD YN BRESENNOL

Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (GB); Prif Gyfreithiwr – Cynllunio a Phriffyrdd (SC); Rheolwr Datblygu (PM); Prif Swyddog Cynllunio (IW); Rheolwr Polisi a Chynllunio Datblygu (AL); Swyddog Prosiect Cadwraeth (KH); Swyddog Polisi Cynllunio (KB) a Gweinyddwr Pwyllgorau (KEJ).

## 1 YMDDIHEURIADAU

Cynghorwyr Jeanette Chamberlain-Jones, Bill Tasker a Julian Thompson-Hill

## 2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni chafodd unrhyw gysylltiad personol na rhagfarnol ei ddatgan.

## 3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chafwyd unrhyw faterion brys.

## 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar 15 Medi 2014.

***PENDERFYNWYD*** *y dylid derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Hydref, 2014 fel cofnod cywir.*

## 5 HYSBYSIADAU CANLLAWIAU CYNLLUNIO ATODOL - DRAFFT AR GYFER YMGYNGHORI

Cyflwynodd y Cynghorydd David Smith, Aelod Arweiniol y Parth Cyhoeddus a’r Rheolwr Datblygu Cynllunio a Pholisi (RhDCP) adroddiad yn cyflwyno drafft y Canllaw Cynllunio Atodol ar Hysbysesbion (CCA) fel sail i ymgynghoriad cyhoeddus. Eglurodd y Cynghorydd Smith y gwahanol gamau yn y broses cyn i’r Pwyllgor Cynllunio fabwysiadu’r dogfennau CCA terfynol.

Cynghorwyd yr Aelodau o'r angen i ddiweddaru dogfennau CCA yng ngoleuni newidiadau deddfwriaethol a mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl). Mae'r CCA hwn yn rhoi arweiniad ar y gwahanol fathau o hysbysebion sydd angen caniatâd ynghyd ag agweddau eraill fel arwyddion dwyieithog a goleuadau priodol. Gofynnodd yr Aelodau am sicrwydd bod mesurau digonol ar waith i ddelio â masnachu blaengwrt, gyda'r RhDCP yn cyfeirio at baragraff 5.6 yn y ddogfen ddrafft yn ymwneud ag arwyddion blaengwrt. Fe atgoffodd yr aelodau y byddai cyfle pellach iddynt wneud sylwadau ar y CCA yn ystod y cyfnod ymgynghori cyhoeddus cyn i'r mater gael ei ddwyn yn ôl i'r pwyllgor i'w fabwysiadu.

**Cynnig** – Cynigodd y Cynghorydd Meirick Davies argymhelliad y swyddog, ac fe’i eiliwyd gan y Cynghorydd Win Mullen-James. Yn unfrydol felly -

***PENDERFYNWYD*** *bod yr aelodau’n cytuno i’r Canllaw Cynllunio Atodol drafft ar Hysbysebion ar sail ymgynghoriad cyhoeddus.*

## 6 CANLLAWIAU CYNLLUNIO ATODOL ADEILADAU RHESTREDIG - DRAFFT AR GYFER YMGYNGHORI

Cyflwynodd y Cynghorydd David Smith, Aelod Arweiniol y Parth Cyhoeddus a’r Swyddog Prosiect Cadwraeth adroddiad yn cyflwyno dogfen drafft o’r Canllaw Cynllunio Atodol ar adeiladau rhestredig ar sail ymgynghoriad cyhoeddus.

Mae'r CCA drafft yn rhoi arweiniad clir a chryno yn seiliedig ar y polisi cenedlaethol diweddaraf ar adeiladau rhestredig a byddai’n ystyriaeth gynllunio wrth asesu ceisiadau am ganiatâd i adeilad rhestredig a cheisiadau cynllunio sy'n effeithio ar adeiladau rhestredig a'u lleoliad.

**Cynnig** – Cynigodd y Cynghorydd Meirick Davies argymhelliad y swyddog, ac fe’i eiliwyd gan y Cynghorydd Bill Cowie. Yn unfrydol felly -

***PENDERFYNWYD*** *bod yr aelodau’n cytuno i’r Canllaw Cynllunio Atodol drafft ar adeiladau rhestredig ar sail ymgynghoriad cyhoeddus.*

## 7 CANLLAWIAU CYNLLUNIO ATODOL ARDALOEDD CADWRAETH - DRAFFT AR GYFER YMGYNGHORI

Cyflwynodd y Cynghorydd David Smith, Aelod Arweiniol y Parth Cyhoeddus a’r Swyddog Prosiect Cadwraeth adroddiad yn cyflwyno dogfen drafft o’r Canllaw Cynllunio Atodol ar ardaloedd cadwraeth ar sail ymgynghoriad cyhoeddus. Byddai'r CCA yn cynorthwyo wrth reoli ardaloedd cadwraeth yn rhagweithiol a phenderfynu ar geisiadau cynllunio sy'n effeithio ar ardaloedd cadwraeth.

Yn dilyn trafodaeth gyffredinol codwyd y pwyntiau canlynol:

- coed mewn ardaloedd cadwraeth yn cael eu diogelu yn gyffredinol a chytunodd y swyddogion i ddiwygio paragraff 5.2 o'r ddogfen i egluro bod angen caniatâd i dorri coeden neu i wneud gwaith tocio ar goed mewn ardal gadwraeth, hyd yn oed os nad oedd y goeden yn destun Gorchymyn Diogelu Coed (GDC) - dylid cyfeirio hefyd at y posibilrwydd y gall coeden eisoes fod yn destun Gorchymyn Diogelu Coed
- byddai rheolaethau dros faterion tirlunio yn cael eu cynnwys fel rhan o'r cais cynllunio
- ni fyddai'n bosibl i uno canllawiau sy'n ymdrin ag ardaloedd cadwraeth, ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol a safleoedd treftadaeth y byd gan fod pob un yn destun gwahanol ofynion statudol a pholisiau cenedlaethol - byddai'r awdurdodau gwahanol sy'n gyfrifol am yr ardaloedd hynny yn cydweithio i geisio sicrhau bod dyheadau a gwaith rheoli yn cyd-fynd
- amlygodd y Cynghorydd Cefyn Williams y cyfeiriad at y Teras, Heol Llundain, Corwen yn y ddogfen a mynegodd ei siom fod caniatâd wedi'i roi am le parcio y tu allan i'r teras sydd o'i farn o ddim yn cydfynd â chymeriad y lle. cadarnhaodd y swyddogion bod caniatâd adeilad rhestredig wedi'i roi yn yr achos hwn a bod sylw priodol wedi'i roi i'r statws ardal gadwraeth ochr yn ochr â materion cynllunio eraill fel rhan o'r broses honno.

**Cynnig** – Cynigodd y Cynghorydd Cefyn Williams argymhelliad y swyddog, ac fe'i eiliwyd gan y Cynghorydd Dewi Owens. Yn unfrydol felly -

***PENDERFYNWYD*** *bod yr aelodau'n cytuno i'r Canllaw Cynllunio Atodol drafft ar ardaloedd cadwraeth ar sail ymgynghoriad cyhoeddus.*

**8 BRIFF DATBLYGU SAFLE DRAFFT: TRIONGL RHUDDLAN**

Fe gyflwynodd y Cynghorydd David Smith, Aelod Arweiniol y Parth Cyhoeddus a'r Swyddog Cynllunio (KB) adroddiad yn argymell aelodau i gytuno ar y Briff Datblygu Safle drafft ar gyfer safle 'Triongl Rhuddlan' a'r ddogfen sgrinio Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS) sy'n dod gydag o ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus. Byddai arddangosfa yn cael ei chynnal yn Llyfrgell Rhuddlan ar 10 Rhagfyr a 17 Ionawr fel rhan o'r broses ymgynghori ac anogwyd yr aelodau i fod yn bresennol.

Siaradodd y Cynghorydd Ann Davies (Aelod Lleol) o blaid y BDS i ddenu busnes a chyflogaeth posibl i'r ardal ac fe gefnogodd yr arddangosfa fel modd o gynnwys pobl leol. Cynigodd argymhelliad y swyddog fel y nodwyd yn yr adroddiad a gafodd ei eilio gan y Cynghorydd Arwel Roberts (Aelod Lleol). Wrth groesawu'r BDS fe roddodd y Cynghorydd Roberts sawl syniad gwahanol gerbron gan gynnwys sefydlu canolfan i dwristiaid, siopau manwerthu a chofroddion er mwyn denu ymwelwyr i'r dref ynghyd â mesurau tirlunio ger lan yr afon a'r glanfa. Cwestiynodd hefyd y ddarpariaeth preswyl a'r mesurau lliniaru i reoli perygl llifogydd. Trafododd yr Aelodau y materion hynny ymhellach yn ystod trafodaeth gyffredinol a gofynwyd am eglurhad yn hynny o beth. Mynegodd y Cynghorydd Alice Jones bryder ynghylch y cynnydd mewn traffig a gofynnydd am sicrwydd y byddai problemau presennol a brofir gan weithwyr amaethyddol yn cael sylw fel rhan o'r broses.

Mewn ymateb i faterion a godwyd dywedodd y Swyddog Cynllunio -

- nad oedd codi lefelau tir unigol ar y safle wedi cael ei ystyried yn opsiwn derbyniol i fynd i'r afael â llifogydd oherwydd y potensial i ddisodli dŵr llifogydd ac achosi effeithiau andwyol o’r perygl o lifogydd ar dirfeddianwyr cyfagos - cytunodd i ymgynghori ymhellach ag Adnoddau Naturiol Cymru ynghylch y mater hwn a'r awgrym i godi’r lefel adeiladu i uchder penodol i liniaru'r risg
- yng ngoleuni cyngor anghyson a ddarparwyd ynghylch y posibilrwydd o lifogydd llanw o aber afon Clwyd, fe gytunodd i ymgynghori â'r Swyddog Risg Llifogydd er mwyn sicrhau bod paragraff 5.6 o'r BDS yn ffeithiol gywir cyn mynd i ymgynghoriad
- TAN 15 - Datblygiadau a Risg Llifogydd yn nodi rhai agweddau o feini prawf datblygu ar gyfer risg llifogydd a'r Asesiad Canlyniadau Llifogydd Strategol a gynhaliwyd wedi dangos na fyddai datblygiad preswyl yn opsiwn ar gyfer y safle, y farn hon wedi’i gefnogi gan Adnoddau Naturiol Cymru a oedd wedi cynghori y byddai'r safle yn addas ar gyfer defnydd diwydiannol ysgafn
- nid yw’r Cyngor yn berchennog ar unrhyw ddarn o’r tir ar y safle ond byddant yn cynorthwyo gyda thrafodaethau cynigion datblygu a chyda’r broses gynllunio.
- natur datblygiad yn y dyfodol yn dibynnu ar gyflwyniadau gan ddatblygwyr posibl a fyddai'n destun profion cyfiawnhad a derbynioldeb y canlyniadau ar gyfer mathau penodol; gellir hefyd trafod mesurau tirlunio, a fyddai o bosib yn gwella edrychiad yr ardal, gydag ymgeiswyr yn ystod y broses
- oherwydd y cyfyngiad pwysau Pont Rhuddlan efallai na fyddai’n addas ar gyfer defnydd nwyddau trwm a cherbydau busnes sy'n mynd i Ffordd yr Orsaf o ganol y dref - cytunodd i edrych ar y cyd â’r adran Briffyrdd i ddefnydd y ffordd gan gerbydau amaethyddol
- byddai'r wybodaeth angenrheidiol ar gael yn y digwyddiad arddangos a gellir hefyd cysylltu â Swyddogion Cynllunio yn y swyddfa ar gyfer ymgynghoriad.

**Cynnig** – Cynigodd y Cynghorydd Ann Davies Davies argymhelliad y swyddog, ac fe’i eiliwyd gan y Cynghorydd Arwel Roberts. Yn unfrydol felly -

***PENDERFYNWYD*** *bod yr aelodau yn cytuno i’r Briff Datblygu Safle drafft ar gyfer safle ‘Triongl Rhuddlan’ a'r ddogfen sgrinio Asesiad Amgylcheddol Strategol amgaeedig (sydd ynghlwm â’r adroddiad) ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus.*

Ar yr amser hwn (10.25 a.m.) torrodd y cyfarfod ac ailddechreuodd am 11.00 a.m.

**9 CAIS RHIF 02/2014/0990 / PF – YSGOL RHUTHUN, FFORDD YR WYDDGRUG, RHUTHUN**

Cyflwynwyd cais i leoli 1 uned ystafell ddosbarth dros dro (cais ôl-syllol) yn Ysgol Rhuthun, Ffordd yr Wyddgrug, Rhuthun.

**Siaradwyr Cyhoeddus -**

Mr. D. Fitzsimon (O blaid) - cymeradwyo adroddiad ysgrifenedig swyddogion i bwyllgor ac ymatebodd i'r pryderon a godwyd yn hysbysu bod gan yr uned symudol ôl troed cynnil a byddai'n cael ei lleoli yn agos at y brif ysgol. Mae lleoliad yr uned dros dro hyd nes cwblhau'r gwaith o adnewyddu ysgolion.

**Trafodaeth Gyffredinol** - Dywedodd y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts (Aelod Lleol) nad oedd wedi derbyn unrhyw wrthwynebiad i'r cais yn bersonol Ymatebodd y Swyddog Cynllunio i gwestiynau yn cadarnhau ei fod yn gais cynllunio ôl-weithredol ar gyfer uned symudol wedi'i leoli a bod rhoi caniatad i'r cais am gyfnod o ddwy flynedd yn cael ei ystyried yn rhesymol.

**Cynnig** – Cynigodd y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts argymhelliad y swyddog i gymeradwyo'r cais, ac fe'i eiliwyd gan y Cynghorydd Stuart Davies.

**PLEIDLAIS:**
CYMERADWYO - 23
GWRTHOD - 1
YMATAL - 0

***PENDERFYNWYD** y dylid CYMERADWYO'R cais yn unol ag argymhellion y swyddog a nodwyd yn yr adroddiad.*

**10 CAIS RHIF 31/2013/1079 / PFHY - TIR YN ELWY MEADOWS, FFORDD ISAF DINBYCH, LLANELWY**

Roedd cais wedi'i gyflwyno er mwyn gosod cynllun hydro-drydan micro ar dir yn Elwy Meadows, Ffordd Isaf Dinbych, Llanelwy.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Dewi Owens at y gŵyn a wnaed i Adnoddau Naturiol Cymru gan Gymdeithas Bysgota Y Rhyl a Llanelwy ynghylch eu hymateb i gynigion hydro yng Nghored Elwy. Cynigiodd bod y cais yn cael ei ohirio hyd nes ymchwiliad pellach i'r gŵyn. Wrth eilio'r cynnig mynegodd y Cynghorydd Meirick Davies ei ofid ynglŷn â'r oedi wrth benderfynu ar y cais a oedd wedi bod ar y gweill ers peth amser.

**Cynnig** – Cynigodd y Cynghorydd Dewi Owens, ac fe'i eiliwyd gan y Cynghorydd Meirick Davies, bod y cais yn cael ei ohirio o ganlyniad i ymchwilio pellach i'r gŵyn.

**PLEIDLAIS:**
I OHIRIO - 22
YN ERBYN GOHIRIO - 2
YMATAL - 0

***PENDERFYNWYD** bod y cais yn cael ei **OHIRIO** hyd nes ymchwiliad pellach i'r gŵyn gan Gyfoeth Naturiol Cymru.*

**11 CAIS RHIF 45/2013/1510 / PO - SAFLE OCEAN BEACH, FFORDD WELLINGTON, Y RHYL**

Cais i ddatblygu 5.3 hectar o dir ar gyfer ailddatblygu defnydd cymysg i gynnwys darpariaeth siop fwyd (Dosbarth A1), unedau manwerthu mawr sydd ddim at ddibenion bwyd/unedau hamdden (Dosbarthiadau A1, A3, D2), unedau caffi/bwyty (Dosbarth A3), gwesty (Dosbarth C1), tŷ tafarn (Dosbarth A3), gorsaf betrol (sui generis), gyda mynediad cysylltiedig, maes parcio, adeiledd (gan gynnwys is-orsaf

newydd) a thirlunio (cais amlinellol yn cynnwys mynediad - pob mater arall a gadwyd) yn Safle Ocean Beach, Ffordd Wellington, Y Rhyl.

**Siaradwyr Cyhoeddus -**

Mr. M. Ralph **(O blaid**) - ymhelaethodd ar natur gymhleth y cais a mesurau diweddar i fynd i'r afael â meysydd sy'n peri pryder. Roedd yr Ymgeisydd wedi ymrwymo i'r cynllun ac wedi cytuno ar yr amodau a gyflwynir gan Swyddogion Cynllunio.

**Trafodaeth Gyffredinol** - Rhoddodd y Swyddog Cynllunio rywfaint o wybodaeth gefndirol a chyd-destun i'r cais a manylu ar y rhesymau y tu ôl i'r argymhelliad y swyddog i ganiatáu'r cais.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Joan Butterfield (Aelod Lleol) i hanes y safle a diffyg blaenorol o weithredu gan yr Ymgeisydd yn arwain at golli hyder y byddai'r datblygiad yn mynd yn ei flaen. Teimlai y dylid cael mwy o uchelgais ar gyfer safle datblygu allweddol o'r fath a mynegwyd pryder ynghylch yr effaith manwerthu ar hyfywedd canol y dref a chynaliadwyedd y cysylltiadau trafnidiaeth. O ganlyniad, fe gynigodd y dylid gwrthod y cais. Eiliodd y Cynghorydd Peter Owen y cynnig yn tynnu sylw at y Rhyl fel cyrchfan wyliau oedd yn gofyn am ddatblygiad er mwyn gwella twristiaeth yn hytrach na darpariaeth manwerthu.

Yn ystod trafodaeth fanwl dyma’r aelodau yn ystyried hanes y safle a thrafodwyd rhinweddau'r cais presennol, gan nodi caniatâd cynllunio sy'n bodoli ar gyfer datblygiad defnydd cymysg tebyg i'r un a gynigir yn awr a’r prif wahaniaethau rhwng y ddau. Er bod y diffyg gweithredu blaenorol yn ofid, nid oedd yr aelodau yn dymuno gweld y safle yn parhau i fod yn ddiffaith a heb ei datblygu ac yn gyffredinol derbyniwyd y byddai caniatáu'r cais yn arwain at gyfle pellach i ddenu diddordeb a buddsoddiad gan ddatblygwr a galluogi mynd i’r afael ag ymddangosiad gwael y safle yn gynt. Er mwyn helpu i hwyluso cyflwyno'r cynllun fe argymhellodd y swyddogion y dylid byrhau’r amserlen i ddechrau datblygiad i dair blynedd ond ni ellir gorfodi i weithredu'r cynllun. Gofynnwyd am sicrwydd ynghylch y cyflenwad trydan ac fe gadarnhaodd y Swyddog Cynllunio is-orsaf newydd yn rhan o’r cais cynllunio a fyddai'n cynhyrchu digon o drydan ar gyfer cam 1 y datblygiad. Trafododd yr Aelodau y manteision economaidd o roi caniatad i fwrw ymlaen â’r cynllun, yr effaith bosibl ar hyfywedd Canol Tref y Rhyl, ac ystyriwyd os oedd modd mynd i'r afael â'r pryderon ynghylch cysylltiadau trafnidiaeth yn fwy effeithiol trwy’r amod cynllunio. Cyfeiriwyd at y Polisi Iaith Gymraeg a chytunwyd bod, pe caniateid y cais, amod pellach yn cael ei osod o ran y defnydd o'r iaith Gymraeg a dwyieithrwydd ar gyfer enwi strydoedd ac arwyddion.

**Cynnig** - Cynigiodd y Cynghorydd Joan Butterfield, ac eiliodd y Cynghorydd Peter Owen bod y cais yn cael ei wrthod, yn groes i argymhelliad y swyddog, yn seiliedig ar effaith manwerthu bosibl y datblygiad ar Ganol Tref y Rhyl a chynaliadwyedd o ran cysylltiadau cerbydau, cerddwyr a beicwyr.

**PLEIDLAIS:**
CYMERADWYO - 18
GWRTHOD - 5

YMATAL - 1

***PENDERFYNWYD** y dylid **RHOI** caniatad yn unol ag argymhellion y swyddog fel y nodwyd yn yr adroddiad a'r papurau ategol ynghyd â gofyniad Strategaeth yr Iaith Gymraeg wedi'i gymeradwyo gan y Cyngor.*

**12 CAIS RHIF 15/2014/0969 / PF - LLYS ARMON, LLANARMON YN IAL, YR WYDDGRUG**

Cyflwynwyd cais i drosi tŷ teras presennol yn ddau dŷ teras un ystafell wely ar wahân a gwaith cysylltiedig yn Llys Armon, Llanarmon Yn Iâl, Yr Wyddgrug.

**Trafodaeth Gyffredinol** - Cododd y Cynghorydd Martyn Holland (Aelod Lleol) ddim gwrthwynebiad i'r cais gan gredu bod galw am eiddo bychain un ystafell wely yn yr ardal, gan ystyried y byddai'n rhaid i'r newidiadau weddu'r eiddo.

Mewn ymateb i gwestiynau dywedodd y Swyddog Cynllunio bod yr amod newydd arfaethedig yn pennu y byddai pren wedi'i baentio yn cael ei ddefnyddio yn fframiau y ffenestri a drysau newydd. Byddai'n afresymol mynnu bod yn rhaid defnyddio paent o liw penodol o ystyried nad oedd yr adeilad yn rhestredig.

**Cynnig** – Cynigodd y Cynghorydd Huw Williams argymhelliad y swyddog, ac fe'i eiliwyd gan y Cynghorydd Arwel Roberts.

**PLEIDLAIS:**
CYMERADWYO - 22
GWRTHOD - 0
YMATAL - 0

***PENDERFYNWYD** y dylid **CYMERADWYO'R** cais yn unol ag argymhellion y swyddog fel y nodwyd yn yr adroddiad a'r papurau ategol.*

**13 CAIS RHIF 45/2014/1079 / PF - 10-24 ABBEY STREET A 3-29 GRONANT STREET, Y RHYL**

Cyflwynwyd cais i ddymchwel Rhifau 10-24 Abbey Street a 3-29 Gronant Street a chodi 11 o dai 2 ystafell wely a 9 tŷ 3 ystafell wely gyda gerddi cysylltiedig, parcio a thirlunio.

**Trafodaeth Gyffredinol** - Siaradodd y Cynghorydd Joan Butterfield (Aelod Lleol) o blaid y cais gan dynnu sylw at yr uchelgeisiau adfywio ar gyfer Gorllewin y Rhyl o ran darparu llety byw o ansawdd gwell. Cyfeiriodd at amod 9 gan dynnu sylw at bryderon a godwyd gan drigolion o rifau 7 ac 8 Gordon Avenue a gofynnodd iddi gael cymryd rhan mewn sicrhau bod y pryderon hynny yn derbyn sylw boddhaol. Nododd y Swyddog Cynllunio ei fod yn hapus i ymgorffori dymuniadau'r yr Aelod Lleol wrth ystyried yr effaith ar y eiddo cyfagos. Cadarnhaodd hefyd bod amod newydd wedi'i gynnig er mwyn diogelu buddiannau cadwraeth natur os bydd ystlumod yn bresennol yn ystod y gwaith.

**Cynnig** – Cynigodd y Cynghorydd Joan Butterfield argymhelliad y swyddog i gymeradwyo'r cais, ac fe'i eiliwyd gan y Cynghorydd Ian Armstrong.

**PLEIDLAIS:**
CYMERADWYO - 20
GWRTHOD - 0
YMATAL - 1

***PENDERFYNWYD*** *y dylid* ***RHOI*** *caniatad yn unol ag argymhellion y swyddog fel y nodwyd yn yr adroddiad a'r papurau ategol.*

Daeth y cyfarfod i ben am 12.10 p.m.